COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 10FED MEHEFIN 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker, B. Barton, D. Howcroft, C. Hughes, Mrs M. Jones; A Khan, C. Matthews, Mrs H. Meredith, J Pearson, M. Pickard, P Richards, S Williams, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Arolygydd Dosbarth Julie Sheard, Heddlu Gogledd Cymru
Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey
Aelod o'r cyhoedd

43/19 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Bradley, Mrs H. Fleet; A. Mason, A. Pearson, Mrs K. Swindon, M. Tasker..

44/19 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Rhoddodd y Maer cyhoeddiad byr i bwysleisio'r neges e-bost a anfonwyd gan y Clerc yn gynharach heddiw ynglŷn â modiwl dysgu ar-lein sylfaenol newydd Un Llais Cymru, sydd ar gael am ddim i bob aelod (trwy'r linc yn yr e-bost).

45/19 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.
Datganodd y Cynghorydd J. Pearson cysylltiad personol ag un all ragfarnu yn eitem 10 ar yr agenda - Coast Community Media & Radio (Cyfarwyddwr).

46/19 Ymwelwyr â'r Cyngor:

a. Croesawyd Julie Sheard, Arolygydd Dosbarth, Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddi annerch y Cyngor am faterion yn ymwneud a phlismona lleol ac ystadegau troseddau.

Diolchodd Arolygydd Sheard i'r Cyngor am y gwahoddiad i'w annerch unwaith eto, a rhoddodd trosolwg byr am dueddiadau / ystadegau trosedd cyfredol. Fodd bynnag, fe'u cyflwynwyd gyda nodyn o bwyll oherwydd, yn aml gall yr hyn sy'n ymddangos i fod yn ganran uchel o gynnydd / gostyngiad cynrychioli ychydig o ddigwyddiadau troseddol yn unig, am fod y nifer o'r holl droseddau yn yr ardal hon yn isel iawn. Mae'n fwy ystyrlon i edrych ar dueddiadau, megis cynnydd cyffredinol mewn 'troseddau yn erbyn unigolyn', wrth benderfynu lle mae'r angen mwyaf am adnoddau ychwanegol. Bu cynnydd hefyd mewn difrod troseddol a throseddau yn ymwneud a chyffuriau, tra bu peth gostyngiad mewn achosion o ymddygiad gwrth cymdeithasol oherwydd y pwerau eang sydd gan yr heddlu rŵan i ymdrin â / gwasgaru troseddwyr.

Mae'r materion lleol sy'n achosi pryder yn cynnwys troseddau tymhorol megis cynnydd yn nhroseddau ymosodol o achos ymddygiad meddwol a

chynnydd mewn siopladrad a lladrata pocedi yn ystod digwyddiadau. Mae yna alw cynyddol am adnoddau'r heddlu i ymdrin â materion iechyd meddwl a chyffuriau a gwasanaethau ambiwlans a bydd angen ymdrechion sylweddol ar lefel strategol os mae hyn i leihau.

Amlygodd yr Arolygydd Sheard hefyd, y cynnydd yn y nifer o eiddo trwyddedig, yn arbennig yn yr ardal o gwmpas Ffordd Penrhyn, a'r cynnydd yn y nifer o droseddau sy'n deillio o fewnlifiad o gymaint o bobl ar nosweithiau. Fe ddefnyddir adnoddau i sicrhau bod eiddo trwyddedig yn cydymffurfio a'u hamodau trwyddedu, e.e. staff wrth y drws. Mae cwcwio (troseddu trefnedig) yn parhau i fodoli yn yr ardal yma ac mae tîm o swyddogion ymroddedig yn gweithio i darfu ar hyn. Mae angen i drigolion lleol cynnig gwybodaeth i gefnogi'r ymdrechion hyn, ag apeliodd yr Arolygydd Sheard am gymorth parhaus gan y gymuned leol.

Cyfeiriwyd hefyd at y pryderon am y cynnydd mewn troseddau cyllell ag achosion o bobl ifanc yn cario cyllell. Fe weithredir polisi o oddef dim ac fe all pobl ifanc cael eu hunain yn y gell er mwyn gorfodi hyn.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau / sylwadau yn ymdrin â: y gymuned leol yn colli hyder oherwydd diffyg ymateb (amserol) naill ai gan swyddogion neu'r llinell 101; angen mwy o gymorth gan fusnesau oherwydd y difrod sy'n cael ei achosi trwy'r cynnydd yn yr economi min nos; pryderon nad oes adroddiadau am fan troseddau; angen am dimau ymateb amlasiantaethol; cadarnhawyd bod gwybodaeth a'i bod yn cael ei ddefnyddio a'i ystyried / cofnodi, hyd yn oed os nad oes ymateb / gweithrediad uniongyrchol - mae'n cael ei ddefnyddio i greu darlun gwybodaeth fel y gellir cymryd camau priodol; a yw rhieni yn cael gwybod am bobl ifanc gyda chyllell (hwn fu'r cam cyntaf ond yn unol â'r polisi newydd, gellir eu restio a mynd a hwy adref at eu rhieni yn ddiweddarach); o faint cafodd cyllideb yr heddlu ei ostwng a pha effaith cafodd hyn ar ymateb y gymuned; nifer yr heddlu (gostyngiad sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf ond mae ailstrwythuro yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ac fe ddisgwylir mwy o newidiadau); nifer presennol yr heddlu cymdogol (2 Rhingyll - un Rhingyll ar ochr Bae Colwyn, 3 CBM, Rhingyll patrôl a 7/8 Swyddog ar bob sifft, gostyngiad yn y nifer o PCSO yn debygol).

Terfynodd yr Arolygydd Sheard trwy ddweud mai'r tro diwethaf i nifer yr heddlu fod mor isel â hyn, cafwyd buddsoddiad sylweddol i roi hwb arall iddynt. Diolchwyd iddi am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

b. Yna croesawyd Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey i'r cyfarfod gan y Maer ac fe wahoddwyd iddo ef a Chynghorwyr Hughes a Khan i roi adroddiadau / diweddariadau ar unrhyw faterion o'r Cyngor Sir a fyddai o ddiddordeb lleol.

Llongyfarchwyd y Maer gan y Cynghorydd Cossey ar ei benodiad diweddar a rhoddodd crynodeb o'r newidiadau yn Arweinydd / Cabinet y Cyngor Sir a ddigwyddodd dros yr wythnos diwethaf. Dywedodd wrth yr Aelodau bod pob Aelod newydd o'r Cabinet wedi cael y cyfrifoldeb o oruchwylio un o'r wyth gwasanaeth a ddynodwyd yng Nghynllun Corfforaethol Conwy, a rhoddodd diweddariad byr am yr hyn a wnaed gyda'r prosiect i adeiladu Pier a gwtogwyd (partneriaid adeiladu i gael eu penodi a'r gwaith i'w gwblhau erbyn Pasg nesaf).

Atebodd y Cynghorydd Cossey ychydig mwy o gwestiynau gan yr Aelodau ac ar ôl diolch iddo am fod yn bresennol, gadawodd y cyfarfod.

476/19 <u>Cofnodion:</u>

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion:***
(i) ***Cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 29ain Ebrill 2019.***
(ii) ***Y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 13eg Mai 2019***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 7fed Mai 2019.
ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 22ain Mai 2019 (drafft)
iii. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 28ain Mai 2019 (drafft.)

48/19 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) **Cofnod 457/18(a) – Brandio'r Dref:**

i. Cyflwynodd y Clerc copi o ohebiaeth e-bost diweddar a rhoddodd adroddiad byr ar lafar am ei chyfarfod gyda Swyddogion (CBSC, BID a DYCHMYGU) a gynhaliwyd ar 4ydd Mehefin 2019.

Fe nodwyd bod y mathau presennol o 'brandio' yn cynnwys gwaith arwyddion croeso (dan arweiniad y Cyngor Tref a BID Colwyn), gwelliannau i'r strydlun mewn perthynas â Chynllun Buddsoddi Canol y Dref (dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a marchnata (dan arweiniad CBSC a BID Colwyn). Roedd y cynllun marchnata gwreiddiol dan arweiniad CBSC yn ymwneud a denu buddsoddiadau o'r tu allan trwy brand 'Perfectly Placed' Weber Shandwick. Fodd bynnag, mae angen gweithredu rŵan i farchnata'r dref fel man ymweld am y diwrnod neu am gyfnod byr ac i'r boblogaeth leol ehangach (i'w denu yn ôl i ganol y dref). Mae BID Colwyn yn defnyddio Cwmni Twristiaeth Gogledd Cymru i farchnata'r dref i ymwelwyr trwy arweinlyfr poced, gwefan a phamffledi 'Go North Wales'. Mae angen gweithredu i dargedu'r boblogaeth leol i gefnogi siopa, hamdden a'r economi min nos.

Rhoddodd y Clerc adroddiad hefyd am y drafodaeth a fu am logo y gellir ei rannu, efallai i ymgorffori elfennau o'r logos a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan BID Colwyn a phrosiect DYCHMYGU Bae Colwyn, i gynnwys delweddau eang o'r bae, toeau a choed. Barnwyd bod angen geiriau syml / dwyieithog i gyd-fynd a hwn, megis 'Bae Colwyn', ac i gynnwys yr holl ardal. Fe gyflwynir cynllun drafft yn y man.

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad y Clerc.

b) **Cofnod 457/18 - Promenâd Hen Golwyn:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, dau ymateb pellach a dderbyniwyd oddi wrth swyddogion Llywodraeth Cymru.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at y Prif Weithredwr, CBSC, i ofyn am ddiweddariad ar yr hyn a wnaed hyd yn hyn gyda'r adroddiad mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl amdano.

c) **Cofnod 466/18 - Cyngerdd Jess Glynne:**

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod un tocyn ar ôl i'w ddosbarthu ar gyfer y cyngerdd. Cytunodd yr Aelodau i gynnig y tocyn i gyfaill un o aelodau'r staff sydd eisoes am fynd i'r cyngerdd.

Penderfynwyd cynnig y tocyn sydd ar ôl i gyfaill yr aelod o'r staff sydd eisoes am fynd i'r cyngerdd.

ch) **Cofnod 7/19 - Y Cyfarfod Blynyddol:** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr eitemau canlynol a ohiriwyd o'r Cyfarfod Blynyddol (gweler Rheol Sefydlog 5(p)):

(i) ***Cafodd Cylch Gorchwyl Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau a Phwyllgor Gwobrwyo Gwirfoddolwyr eu hadolygu a'u cymeradwyo yn unol ag Atodiad 'A' sydd gyda hwn.***

(ii) ***Cafodd Cynrychiolaeth y Cyngor ar fudiadau allanol ei adolygu a'i gymeradwyo yn unol ag Atodiad 'B ' sydd gyda hwn.***

- Gadawodd y Cynghorydd A. Khan y cyfarfod yn y pwynt yma.

(iii) Cyflwynodd y Clerc y Gofrestr o Asedau'r Cyngor a ddiweddarwyd, ac fe'i nodwyd. Gofynnodd y Cynghorydd Hughes beth oedd wedi digwydd i weddill arteffactau'r Ganolfan Ddinesig oedd yn cael eu harddangos / storio yn y Ganolfan Ddinesig cyn iddo gau.

Penderfynwyd, er gwybodaeth at y dyfodol, gofyn i'r Clerc cysylltu â ChBSC i ofyn am restr o unrhyw arteffactau sy'n berthnasol i ardal Bae Colwyn a symudwyd o'r Ganolfan Ddinesig ac i ofyn lle mae'r rhain yn cael eu harddangos neu eu storio ar hyn o bryd.

d) Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:

(i) **Cofnod 19/19 – Offer Chwarae:** Nodi bod cyllideb CBSC yn cael ei ddefnyddio tuag at yr holl waith a flaenoriaethwyd ar draws ardal Bae Colwyn cyn y gellir defnyddio'r cyllid ychwanegol a addawyd i'r Cyngor hwn.

(ii) **Cofnod 26/19 – 'Prom Ally':** Cefnogwyd y cais i gael defnyddio llawr uchaf yr adeilad yng nghefn Neuadd y Dref fel storfa dros dro.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i ganiatáu Tenantiaeth wrth Ewyllys ar yr un telerau a'r rhai a roddwyd i Sied Dynion a Radio a Chyfryngau Cymunedol yr Arfordir am y defnydd o'r ystafell fawr a'r gegin ar lawr uchaf yr adeilad cefn, tra bo'r elusen fechan yn trosi i fod yn gwmni cyswllt cymunedol ac yn ymgeisio am gyllid am eiddo mwy parhaus yn ardal Bae Colwyn.

Fe nodwyd bod yr angen am daliad deiliadaeth (i rannu'r costau gwresogi, goleuo, dwr a chynnal a chadw) ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chynnwys, yn dod o dan delerau'r Denantiaeth wrth Ewyllys.

dd) ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

49/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Cynghorydd S. Williams adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Fforwm Lleol yr Ardal Ganol a gynhaliwyd ar 15fed Mai a fynychwyd ganddo ar ran y Clerc. Rhoddodd diweddariad iddynt am fwriad y Cyngor Tref i ddechrau ar y gwaith o greu cynllun cynefin ar gyfer ardal Bae Colwyn. Fe nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cymryd cam yn ôl yn unol â'r canllawiau, fel bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael arwain ar hyn. Roedd Fforwm yr Ardal Leol wedi gofyn am i gynrychiolydd fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn iddynt gael gwybod am yr hyn a wnaed a gofynnodd yr Aelodau i gael bod yn rhan o'r broses ar yr adegau priodol.

Cafwyd trafodaeth am benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y Fforwm Ardal Leol. Fe nodwyd bydd y cyfarfodydd yn ymdrin â llawer mwy o bethau na Chynlluniau Cymuned / Cynefin yn unig ac fe awgrymwyd y byddai ymwybyddiaeth ehangach o brosiectau adfywio Byw yn y Bae a mentrau eraill, megis Colwyn yn ei Blodau, o fudd hefyd.

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Paul Richards i fod yn gynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Fforwm Ardal Leol.

50/19 <u>Y Cyfrifon Blynyddol a'r Archwiliad:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc copi o Ddatganiad Cyfrifon Drafft 2018/19, ynghyd a nodiadau ategol. Fe nodwyd i hwn fod yn destun yr archwiliad mewnol.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r datganiad o'r cyfrifon blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2019, fel mae yn ymddangos yn Atodiad 'C' sydd gyda hwn.

(b) Cyflwynodd y Clerc Adroddiad yr Archwilydd Mewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2019 a rhoddodd adroddiad byr ar lafar ar ddwy eitem y cyfeiriwyd atynt gan yr Archwilydd:

(i) Cofnodi incwm o'r defnydd o ystafelloedd:
Rhaid atgoffa'r holl staff o'r angen i gynnwys rhif yr anfoneb yn y blwch cyfeirio wrth gofnodi derbynebau yn y llyfr arian er mwyn hwyluso'r trywydd archwilio.

(ii) Dylai cofnodion Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt a Phwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio fod wedi datgan yn fwy eglur bod y cytundeb tân gwyllt yn estyniad o gytundeb oedd eisoes yn bodoli (ar ôl iddo gael ei adolygu'r flwyddyn flaenorol yn unol â Rheoliadau Ariannol) ac felly nid oedd angen cael y tri amcan bris.

Fe nodwyd bod y digwyddiad yn cael ei gydredeg gyda ChBSC a chriwiau o Orsaf Dân Bae Colwyn a bod y cytundeb tân gwyllt (i gyflenwi, storio a thanio'r tân gwyllt) wedi cael ei reoli gan y criwiau o'r Orsaf Dân lleol ers i'r digwyddiad gychwyn ym 1970. Sefydlwyd cwmni gwahanol yn 2017 ar gyfer amcanion yswiriant.

(c) Cyflwynodd y Clerc y datganiadau cyfrifon a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol y Canlyniad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2019 i gael eu cymeradwyo.

Penderfynwyd cadarnhau datganiadau cyfrifon 2018-19 a'r sicrwydd a roddwyd yn rhannau un a dau o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a rhoi awdurdod i'r Cadeirydd llofnodi'r canlyniad blynyddol, i'w gyflwyno i'r Archwilydd Allanol.

51/19 <u>Democratiaeth Leol a'r Comisiwn Ffiniau:</u>

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, adroddiad ar yr argymhellion terfynol yn dilyn yr adolygiad o drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Fe nodwyd y bu cytundeb am y ffin rhwng wardiau Rhos a Rhiw, gyda'r canlyniad bod y ddwy ward yn cadw'r un nifer o seddau ar y Cyngor Sir.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

52/19 <u>Radio Bayside:</u>

Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried oddi wrth Radio a Chyfryngau Cymunedol yr Arfordir (CCR&M) (Radio Bayside), am brydles fwy ffurfiol (o leiaf 5 mlynedd) i gael defnyddio'r ddwy ystafell ar lawr cyntaf yr adeilad cefn, a hefyd y posibilrwydd o gynnwys trydedd ystafell fel 'ystafell werdd'.

- Gadawodd y Cynghorydd J. Pearson y cyfarfod yn y pwynt yma, gan iddo ddatgan cysylltiad personol ag un all ragfarnu (Cyfarwyddwr CCR&M).

Fe nodwyd byddai caniatáu prydles yn rhoi sicrwydd daliadaeth, sy'n angenrheidiol yn aml i gwmni gyda chysylltiad cymunedol, wrth iddynt geisio grantiau a thrwyddedau. Byddai telerau unrhyw brydles yr un fath ag i'r deiliad dielw eraill, yn cynnwys CVSC a Conwy Connect. Gofynnwyd a ellid cynnwys cymal toriad ar ol 3 blynedd (haf 2022) i gyd-fynd a diwedd prydlesi saith mlynedd CVSC a Conwy Connect.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio cyngor Swyddog y Gyfraith CBSC am y posibilrwydd o gynnwys cymal torri ac i ddweud wrth CCR&M bod y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor ar yr amod bod cytundeb ar delerau'r brydles a bod CCR&M yn talu'r costau cyfreithiol o baratoi / llofnodi'r brydles.

53/10 <u>Un Llais Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am y Gynhadledd Ymarferiad Arloesol sydd i'w gynnal ar Faes y Sioe Frenhinol ar 10fed Gorffennaf 2019

Penderfynwyd derbyn a nodi manylion y digwyddiad.

54/19 <u>Y Cynllun Corfforaethol:</u>

Fe nodwyd bod angen paratoi drafft o'r cynllun gwaith ar gyfer 2019/20.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.35pm

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 10TH JUNE 2019

PRESENT: The Mayor, Cllr N Bastow
Cllrs: G Baker; B Barton; D Howcroft; C Hughes; Mrs M Jones; A Khan; C Matthews; H Meredith; J Pearson; M Pickard; P Richards; S Williams, M Worth

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: District Inspector Julie Sheard, North Wales Police
County Councillors: B Cossey
Member of the public

452/18 Apologies for Absence:

The Mayor welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: D Bradley; H Fleet; A Mason; T Pearson; K Swindon; M Tasker.

453/18 Announcements by the Mayor:

The Mayor made a brief announcement to highlight an e-mail sent out by the Clerk earlier today regarding One Voice Wales' new basic online learning modules, which are available free of charge to all members (via the link in the e-mail).

454/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests.
Cllr J Pearson declared a personal and prejudicial interest in agenda item 10 – Coast Community Media & Radio (as a Director).

455/18 Visitors to the Council:

a. The Mayor welcomed Julie Sheard, District Inspector, North Wales Police, to address the Council regarding local policing issues and crime statistics.

Insp. Sheard thanked the Council for the invitation to speak again and gave a brief overview of current crime trends/statistics. However, these were presented with a word of caution, as what can appear to be large percentage increases/decreases can often represent just a few crime incidents, due to the very low overall numbers of crimes in this area. It is often more meaningful to look at trends, such as a general increase in 'offences against a person', when deciding where additional resources are needed. There have also been increases in criminal damage and drug related offences, whereas incidents of anti-social behaviour have shown a slight reduction, due to the wide ranging powers the police now have to tackle/disperse offenders.

Local issues of concern include seasonal offences such as an increase in

violent crime relating to drunken behaviour and increases in shoplifting and pickpocketing during events. An increased demand on police resources is still being seen from mental health and drug related issues and ambulance services and this requires significant efforts at a more strategic level, if it is to be reduced.

Inspector Sheard also highlighted the increase in the number of licensed premises, particularly in the Penrhyn Road area, and the increase in crime which results from an influx of extra people in the evenings. Resources are being deployed to ensure licensed premises are adhering to their license conditions, e.g. for door staff. (organised crime activity) is still happening in this area and a dedicated team of officers work on disrupting this. Intelligence is needed from local residents to support these efforts and inspector Sheard appealed for continued help from local communities.

Reference was also made to concerns about an increase in knife crime and incidents of young people carrying knives. A zero tolerance policy is being applied and young people may find themselves being put into cells to enforce this.

A question and answer session followed, with questions/comments made about: the loss of trust of the local community due to a lack of (a timely) response, either from officers or the 101 line; more support needed for businesses due to damage resulting from the increase in the night time economy; concerns that low level crime is not being reported; need for multi-agency response teams; assurance was given that intelligence is always fed back and considered/logged, even if there is no immediate response/action –it is used to create an intelligence picture so that appropriate action can then be taken; whether parents were informed about young people with knives (used to do this as first resort, but under new policy may now make arrest and take home to parents later); how much the police budget has reduced by and the impact this has had on neighbourhood/response police numbers (significant reductions over last 10 years, static for past 12 months, but full restructure currently underway and more changes expected); current numbers of neighbourhood police (two Sergeants (one Sgt for Colwyn Bay side), three CBMs, patrol sergeant plus 7/8 Officers on every shift, number of PCSOs likely to reduce.

Inspector Sheard concluded by commenting that the last time police numbers got this low, a massive investment followed to boost them again. She was then thanked for attending and retired from the meeting.

b. The Mayor then welcomed County Councillor B Cossey to the meeting and invited him, plus Cllr Hughes and Cllr Khan, to give any reports/update on County Council matters.

Cllr Cossey congratulated the Mayor on his recent appointment and summarised the changes to the County Council Leader/Cabinet concluded in the past week or so. He informed members that the new Cabinet members had each been given responsibility for overseeing one of the eight outcomes in the Conwy Corporate Plan and gave a brief update on progress with the project to reinstate a short, truncated Pier (construction partners to be appointed and work to be completed by next Easter).

Cllr Cossey responded to a couple of questions from members and then retired from the meeting, after being thanked for his attendance.

456/18 Minutes:

a. ***Resolved to approve and sign, as a correct record the minutes of:***
   i. The last meeting of the Council, held on 29th April 2019.
   ii. The Annual Meeting held on 13th May 2019.

b. ***Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***
   i. The General Purpose & Planning Committee held on 7th May 2019.
   ii. The Policy & Finance Committee held on 22nd May 2019 (Draft).
   iii. The General Purpose & Planning Committee held on 28th May 2019 (Draft)

457/18 Matters Arising from Those Minutes:

a. **Min. 457/18(a) – Town Branding:**

i. The Clerk submitted a copy of recent e-mail correspondence and gave a brief verbal report, following a meeting of Officers (CCBC, BID and IMAGINE) held on 4th June 2019.

It was noted that current 'branding' type projects include work on gateway signage (led by Town Council and Colwyn BID), streetscene improvements in connection with the Town Centre Investment Plan (led by CCBC) and marketing activities (led by CCBC and Colwyn BID). The CCBC led marketing action had previously been around attracting inward investment, through the Weber Shandwick 'Perfectly Placed' brand, however, action was now needed to market the town to day and short stay visitors and to the wider local population (to bring them back into the town centre). Colwyn BID are using NW Tourism to market the town's offer to visitors through the Go North Wales pocket guide, website and brochures. Action is required to target the local population to support the shopping, leisure and evening economy.

The Clerk also reported on a discussion around a shared logo, possibly to incorporate elements of the logos adopted recently by Cowlyn BID and the IMAGINE Colwyn Bay project, which include a sweeping bay, roofscape and trees. It was also felt that simple/bi-lingual wording was required alongside this, such as 'Bae Colwyn', to include the whole area. A draft design will be circulated in due course.

The Clerks report was received and noted.

b. **Min. 457/18(c) – Old Colwyn Promenade:**

The Clerk submitted, for information, two further responses from Welsh Government officials.

Resolved to ask the Clerk to write to the Chief Executive, CCBC, to request an update on progress with the report that the Welsh Government indicated it was waiting for.

c. **Min. 466/18 – Jess Glynne Concert**:

The Clerk advised members there was still one ticket to be allocated for the concert. Members agreed that one of the members of staff attending be invited to take a guest.

Resolved to allocate the remaining ticket to a guest of a member of staff who is already attending.

d. Min 7/19 – Annual Meeting: Members were asked to consider the following items, deferred at the Annual Meeting (see Standing Order 5(p)):

(i) ***The Terms of Reference for the Colwyn in Bloom Committee and Volunteer Awards Committee were reviewed and approved, as detailed in Schedule A attached.***
(ii) The Council's Representation on outside bodies was reviewed and approved, as detailed in Schedule 'B' attached.

- Cllr A Khan retired from the meeting at this juncture.

(iii) The Council's updated Asset Register was submitted by the Clerk and noted. Cllr Hughes queried what had happened to the remaining Colwyn Civic artefacts that had been displayed/stored at the Civic Centre, prior to its closure.

Resolved to request that the Clerk contacts CCBC to request a list, for future information, of any civic artefacts relating to the Colwyn Bay area removed from the Civic Centre site and information about where these are now being stored or displayed.

e. Members were asked to consider and endorse the resolutions of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i. Min 19/19 – Play Equipment: To note the request that the CCBC budget is used for all priority works across the Bay of Colwyn area, before the additional funding pledged by this Council is used.

ii. Min 26/19 – Prom Ally: To support a request for temporary storage facilities in the upper floor of the rear annexe of the Town Hall site.

Resolved to authorise the granting of a Tenancy at Will, on the same terms as those granted to the Mens' Shed and Coast Community Radio and Media, for the use of the large room and kitchen area in the upper floor of the rear annexe, whilst the small charity converts to community interest company and applies for funding for more permanent premises in the Colwyn Bay area.

It was noted that the requirement to cover occupational charges (for a share of the heating, lighting, water and maintenance costs) and for public liability and contents insurance are covered under the terms of the Tenancy at Will.

f. ***Resolved to note the resolutions of the Committees as detailed in the Minutes.***

458/18 <u>Conwy CBC:</u>

Cllr S Williams gave a brief verbal report on the Central Local Area Forum meeting held on 15th May, which he had attended on behalf of the Clerk to give an update on the Town Council's intentions to begin work on producing a community/place plan for the Bay of Colwyn area. It was noted that the County Council has taken a step back, in accordance with guidance, so that town and community councils can lead on this. the Local Area Forum has asked for a representative to attend future meetings to keep them informed on progress and members have asked to be involved at appropriate stages of the process.

A discussion ensued about the appointment of a representative to attend the Local Area Forum meetings. It was noted that the meetings would cover much more than just Community/Place plans and it was suggested that a broader awareness of the Bay Life regeneration projects and other initiatives such as Colwyn in Bloom would also be beneficial.

Resolved to appoint Cllr Paul Richards as the Town Council's representative on the Local Area Forum.

459/18 <u>Annual Accounts and Audit</u>:

a. The Clerk submitted a copy of the Draft Statement of Accounts, plus supporting notes, for 2018/19. It was noted that this had been subjected to internal audit.

   Resolved to receive and note the annual statement of accounts for the year ended 31st March 2019, as detailed in Schedule 'C' attached..

b. The Clerk submitted the Internal Auditor's Report for y/e 31st March 2019 and gave a brief verbal report on the two items raised by the auditor:

   i. Recording of room hire income:
   All staff will be reminded of the need to include the invoice number in the reference field when entering receipts into the cashbook, to make the audit trail easier.

   ii. The minutes of the Bonfire Sub-Committee and GP&P Committee should have stated more clearly that the fireworks contract was an extension of an existing contract (having been reviewed the previous year in accordance with financial regulations) and that three quotations were not, therefore, considered necessary.

   It was noted that the event is run in partnership with CCBC and Colwyn Bay Fire Station crews and that the fireworks contract (for supply, storage and ignition of fireworks) has been managed by the local Fire Station crews since the event began in 1970. A separate company had been formed in 2017, for insurance purposes.

c. The Clerk submitted for approval the accounting statements and Annual Governance Statement in the Annual Return for the year ended 31st March 2019.

Resolved to confirm the accounting statements for 2018-19 and the assurances given in parts one and two of the annual governance statement and authorise the Chairman to sign the annual return, for submission to the External Auditor.

460/18 **Local Democracy and Boundary Commission:**

The Clerk submitted, for information, the final recommendations report following the review of the electoral arrangements for Conwy County Borough. It was noted that adjustments had been agreed to the boundary between Rhos and Rhiw wards, which had resulted in both wards retaining the existing number of County Council seats.

Resolved to receive and note the report.

461/18 **Bayside Radio:**

The Clerk submitted, for consideration, a request from Coast Community Radio and Media (Bayside Radio) to enter into a more formal lease (5 years minimum) for the use of the two rooms on the first floor of the rear annexe, plus the possible inclusion of a third room for use a 'green room'.

- Cllr J Pearson retired from the meeting at this juncture, having declared both a personal and prejudicial interest (as a Director of CCR&M).

It was noted that the granting of a lease would provide the community interest company with more security of tenure, which is often a requirement for grants and licenses. Any lease provided would be on the same terms as given to other non-profit making occupants, including CVSC and Conwy Connect. It was queried whether a break clause could be included after 3 years (summer 2022) to coincide with the end of the seven year leases granted to CVSC and Conwy Connect.

Resolved to ask that the Clerk seeks advice from the Legal Officer at CCBC as to the possibility of the inclusion of a break clause and to advise CCR&M that the Council is supportive in principle, subject to agreement over the terms of the lease and for CCR&M to cover the legal costs relating to the drawing up / signing of the lease.

462/18 **One Voice Wales:**

The Clerk submitted notice of the Innovative Practice Conference to be held on 10th July 2019 at the Royal Welsh Showground.

Resolved to receive and note details of the event.

463/18 **Corporate Plan:**

It was noted that the action plan for 2019/20 requires drafting.

The meeting closed at 8.35pm ……..…… Chairman